

ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 21^{ain} MEDI 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 8.30 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Erwyn Jones - Cadeirydd
Mel Goch ap Meirion
Bedwyr Gwilym
Will G Roberts
Mari Rees
Mark Thomas
Glyn Daniels

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Ronwen D Roberts
Rory Francis
Annwen Daniels

DATGAN DIDDORDEB

Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

Ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor

Bu i'r Cynghorydd Erwyn Jones gael ei ethol yn gadeirydd y Pwyllgor

1. Adroddiad Caeau Chwarae

Bu i'r Pwyllgor drafod adroddiadau misol y caeau chwarae

Argymell: I dderbyn yr adroddiadau

2. Arwyddion Dim Cŵn

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â gosod arwyddion Dim Cŵn gyda logo'r Cyngor Tref arnynt ar y caeau chwarae i osgoi unrhyw amheuaeth ynglŷn â chyfrifoldebau cynnal a chadw.

Argymell: I aros am bris gan gwmni Designer Signs o Benygroes.

3. Cwrs Golff

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r diffyg refeniw sydd wedi ei dderbyn er i'r cwrs golff gwirion gael ei osod. Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â'r problemau gyda'r caffi ddim ar agor yn rheolaidd e.e. dim toiledau ar gael, dim tocynnau cwrs golff gwirion yn cael eu gwerthu a dim codi sbwriel rheolaidd.

Argymell: I geisio cael cyfarfod gyda Carys Jones nos Fawrth 19^{eg} o Hydref am 7.00 yn y Siambr i geisio unwaith eto datrys rhai o'r problemau.

4. RoSPA

Cafwyd gwybodaeth bod archwiliad RoSPA wedi ei drefnu ar gyfer pob cae chwarae dan ofal y Cyngor Tref ym mis Hydref ac wedyn yn flynyddol ym mis Mehefin.

Argymell: I dderbyn y wybodaeth

5. Arwydd Trefeillio a Rawson

Cafwyd gwybodaeth nad oes gan Gyngor Gwynedd unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i osod arwyddion Trefeillio a Rawson ar yr A470 ar Fwlch y Gorddian a'r A496 ger Allt Goch. Bydd angen caniatâd Llywodraeth Cymru i osod arwydd ar yr A470 a bydd angen iddynt gytuno a dyluniad yr arwydd. Mae'r gost yn debygol o fod tua £1500 yr arwydd.

Argymell: I dderbyn y wybodaeth a symud ymlaen gyda dylunio arwydd

6. Goleuadau Nadolig

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phrisiau goleuadau Nadolig gan gwmni Lite.

Argymell: I beidio â phrynu goleuadau arbennig eleni oherwydd diffyg lle i'w cadw ond i symud ymlaen a phrynu mwy o oleuadau ar gyfer y coed yn Diffwys. I holi Cyngor Gwynedd ynglŷn â pholisi Llywodraeth Cymru eleni. Y llynedd gwrthwynebodd Llywodraeth Cymru wrth osod unrhyw oleuadau maent yn tybio i fod yn rhy drwm ar gyfer y colofnau golau stryd neu unrhyw olau a allai dynnu sylw'r gyrwyr.

7. Anrhegion i Rawson

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phrynu anrhegion i'w cyflwyno i Rawson gan Elin Roberts, enillydd Ysgoloriaeth Patagonia'r Cyngor Tref pan fydd yn ymweld â Phatagonia mis Hydref.

Argymell: I brynu llwy caru, rhywbeth o frethyn Cymreig a llyfr i'w cyflwyno i'r llyfrgell yn Rawson.

8. Meysydd Parcio ganol y Dref

Yn dilyn cwynion gan fusnesau'r dref nad yw trigolion yn siopau'n lleol oherwydd y gost uchel o barcio yn Diffwys cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut i ddatrys y broblem. Cafwyd gwybodaeth y byddai Cyngor Gwynedd yn ystyried eu cyfnewid a chael maes parcio Diffwys fel arhosiad byr a'r maes parcio tu ôl i Westy Tŷ Gorsaf fel arhosiad hir os cawn gais i wneud hyn.

Argymell: I dderbyn y wybodaeth.